

Ar y sgrin

Dechrau Newydd... Rhyddid o'r diwedd. Roedd o fel petai'r bore wedi bloeddio "ar eich marciau, barod, ewch!" Cannodd corn y bws ac roedd atsain bywiog, dryslyd y plant yn llenwi fy mhen. Beth yw rhyddid? Beth yw gobaith? Roeddwn i am brofi'r rhyddid yma o'r diwedd. DWI ALLAN! Ailadroddais y frawddeg yma dro ar ôl tro, tra bod holl blant y bws yn syllu arnaf yn syn ac yn chwerthin fel gwarchod o fy nghwmpas. Gwaeddodd rhyw ferch o'r cefn "Cropia nôl o dan dy gragen Grug Evans!" gan chwerthin. Roedd o fel bod mewn ffau llewod yn barod i fy mrathu mewn un llwnc. Gwelais wyneb tirion fy Mam yn gwenu arnaf drwy ffenest fudr y bws, a'i dwylo meddal yn codi llaw arnaf. Roedd Mam yn angor i mi a'i gwen yn fy nghysuro pob amser. Y cyfan oeddwn yn gallu meddwl amdano ar yr eiliad honno oedd bod yn naw oed, yn eistedd ar lin Nain a hi'n dweud rhywbeth oedd wedi fy nrysu i ar y pryd....

'Ti'n gwybod be Grug, nes i fwynhau'r rhyfel. Roedd o'n gyfnod cyffrous.

'Sut all rywun fwynhau rhyfel? Wel, sut all rywun fwynhau pandemig? Dryswch. Disgrifiad da o fy mhen pan oeddwn yn naw oed, yn ceisio gwneud synnwyr o'r peth a methu.

Roeddwn wedi mwynhau cyfnodau o'r clo, er na fyddaf yn cyfaddef hynny wrth neb. Mwynhau diogi yn fy mhyjamas, sŵn byddarol y cloncian sosbenni ar nos lau ac utgorn fy mrawd bach. Bod yn ddiogel adref...

Peidio gorfod poeni am sut yr oeddwn yn edrych. Peidio gwisgo colur. Treulio amser efo Mam, cysgu'n hwyr tan berfeddion bore. Beth oedd yr ots? Doedd dim angen plesio na gweld neb! Mynd ar ras o hyd, dyna oedd fy mywyd cyn i'r bwystfil cyrraedd y byd. Ysgol, dillad a ffasiwn, tik tok, Instagram a bechgyn... Misoedd wedi asio yn un. Teimlo fy mod ar reid droellog gyflym yn y ffair yn ddyddiol. Ac i le? Roedd y byd wedi stopio yn sydyn, ac amser i bawb i feddwl ac ailedrych ar eu bywydau....

Roedd fy mywyd fel rhaffau wedi clymu'n dyn at ei gilydd a neb yn gallu ei ddatod neu ei ddatrys... Edrychais ar fy hun yn y drych a gweld llygaid fel pwll du o inc, fy ngwen yn ffals, a gwallt fel nyth bran! Roeddwn wedi bod ar y byd yma ers oesoedd a heddiw oedd y diwrnod cyntaf o obaith a hapusrwydd. Rhaid dweud hwyl fawr i'r llygoden fach ofnus, oherwydd Grug yw hon. Grug Evans!

Doedd yr Ysgol dim ond taflriad carreg yn nawr. Camais i ffwrdd o'r bws yna'n sydyn y plant yn fy ngwthio o'r ffordd fel corwynt Eunice! Cerddais lawr y llwybr i'r ysgol a'm llygaid yn dilyn patrwm y craciau yng ngherrig y palmant. BRRR!! PING! Fy 'apple watch', neges gan Mam yn dymuno pob hwyl i mi ar fy niwrnod cyntaf nôl yn yr Ysgol, a bod hi wedi rhoi nodyn lwcus yn fy mocs bwyd.

Misoedd o sgrin, 'zoom', 'face time' a'r bwystfil yn ein carcharu o'r byd mawr tywyll tu allan. Cerddais i'r ysgol a fy mhen yn isel. Roedd popeth yn edrych yn fwy rhywsut, y grisiau i agoriad yr ysgol fel tyrau a'r plant yn gewri enfawr. Llygoden fach yr oeddwn i, yn chwilio am ryw fymryn

o gaws fel gobraith y byddai popeth yn iawn. Edrychais ymlaen at weld fy ffrindiau, cyffwrdd, cofleidio, gweld yr athrawon, a chael croeso cynnes, cyfeillgar. Siom a gefais. Dim ond rhyw "helo bach". Ches i ddim llawer o groeso gan fy ffrindiau chwaith, roedd o fel bod pawb wedi newid ers y clo mawr. Siŵr bod y realiti wedi amharu. Beth sydd wedi digwydd i'r byd yma? Doeddwn i ddim yn hoffi Grug Evans o'r blaen ac yn bendant doeddwn i ddim yn hoffi hi rŵan! I ddweud y gwir, roeddwn ofn y bwystfil yn fawr, cael breuddwydion cas weithiau bod y bwystfil yn mynd i ddwyn Mam a fy nheulu. Cael fy nghloi yn yr ystafell gudd! Doedd heddiw ddim yn mynd fel y disgwyl o gwbl. Roedd fy mhen yn troi fel corwynt a'r gorfoledd o ryddid yn blasu'n ddieithr a chwerw... Roedd fy niwrnod cynta' nôl wedi fy mlino. Roedd 'na dyndra'n croesi fy ngwar. Roeddwn yn teimlo'n ddrwsogl, rhywsut, trwy'r dydd. Roedd o fel fy mod ddim yn siŵr sut i ddefnyddio fy nghorff yn iawn, yn chwithig o ymwybodol o'r ffordd yr oeddwn yn symud o gwmpas fy ffrindiau yn yr Ysgol. Heb sylwi, roeddwn wedi bod yn rhestru yn fy mhen popeth yr oeddwn yn ei gyffwrdd, ac roedd hynny wedi bod yn llafurus.

O'r diwedd, cyrraedd fy hafan, fy ystafell wely. Cloi'r drws. O'r diwedd teimlo'n ddiogel. Roedd fy nyrnau yn goch fel tân, chwys yn diferu fy ngruddiau a'm calon yn carlamu. Eisteddais yn flin, fy nghefn ar y drws caled. Siom fod y dechrau newydd ddim yn obeithiol. Fy mhen eisiau ffrwydro. Anadlu'n gyflym, a fy mhen yn troi. Yng nghanol yr holl niwl, roedd y sgrin yn fflachio'n fytheiriol! Roedd ysfa yno, a oedd yn fy nhynnu i fyd y sgrin. Rhaid oedd agor y sgrin! Roedd curiad fy nghalon yn mynd yn gyflymach, chur aruthrol yn fy mhen. BANG!

Tywyllwch, Tawelwch. Cael fy hudo i fyd arallfydol y sgrin. Beth oedd ar y sgrin? Sinema'r emosiynau. Doedd dim dianc, sgrechiais yn uchel i weld os fase rhywun yn fy nghlywed. Rhifau. Cyfiri. 10 9 8 7 .... Yn sydyn gwelais luniau ohonof i fy hun yn edrych yn rhwystredig a blin.

Lluniau'r teulu, ffrindiau...

Roeddent mor bell i ffwrdd. Roeddwn i yn gallu gweld y rhwystredigaeth yn fy llygaid du ar y sgrin, o fedru cyffwrdd a chofleidio anwyliaid. Y lluniau'n troi fel olwyn ddŵr...

Nain.

Roeddwn yn ysu am deimlo breichiau cynnes, gwarchodol, diogel Nain yn cau amdanaf fel angor a chael aroglu cacennau yn pobi yn y ffwrn a chlywed sŵn y radio yn suo yn y cefndir.

Mari.

Fy ffrind ffyddlon. Roedd Mari yn ymddangos ar y sgrin yn ddyddiol ar y dechrau, ond wrth i'r wythnosau a'r misoedd dreiglo, roedd y 'face time' a'r negeseuon yn lleihau. Beth ddigwyddodd i Mari? Y bwystfil wedi'i dwyn oddi arnaf? Colli ffôn efallai?

Newyddion

Lluniau'r byd yng nghrafangau'r bwystfil blin barus a oedd wedi newid bywydau pawb am byth! Llais bondigrybwyll yn atseinio trwy'r tŷ o fore gwyn tan nos... Llygaid ansicr, blinedig y gwasanaethau argyfwng a'r rheng flaen yn llenwi'r sgrin. Enfys ar y ffenestr, a oes gobraith?

Mr Huws,

“Falch dy weld di ar y sgrin heddiw am unwaith Grug”. Pwy mae o’n feddwl yw e, y prif weinidog nesaf? Mae ei lygaid fel diafol a’i ddawn o wneud i bawb i deimlo’n fethiant yn llwyddiannus. Dyn hunan bwysig, haerllug oedd yn llwyddo i’ m corddi pob tro y gwelais yn y wers fiseg.

Enfys.

Yr enfys fel symbol o ddiolch a hapusrwydd... Bywyd wedi arafu tipyn gyda chymunedau yn uno... Bob nos iau, curo ein sosbenni yn fytheiriol yna clapio i’r rheng flaen.

Cae o flodau

Dwi’n cofio rhedeg yn rhydd mewn cau o flodau gwyllt melyn. Pili Pala yn hedfan yn yr awel gynnes, y gwenyn yn heidio at y blodau, a’r haul yn machlud ar hirddydd haf. Fy ngwallt yn chwyrlio yn y gwynt a’r arogl gwyddfid yn llenwi fy ffroenau.

Cymro.

Fy ffrind ffyddlon, ei lygaid glas sisialaidd yn edrych fyny arnaf yn swta ac annwyl. Roedd o wrth fy ochr bob munud, yn siglo ei gynffon, chwarae yn y glaswellt gwyrdd iach, adlewyrchu haul tanllyd yr haf. Cymro oedd yr unig greadur byw y gallwn ymddiried ynddo...

Teulu.

Roedd wynebau cyfarwydd yn y llun yn fy ngwneud yn fwy emosiynol, oherwydd roeddwn i yn ysu am glywed llais Nain. Dwi wedi bod yn treulio gormod o amser ar y sgrin pan ddylwn fod efo fy nheulu. “DWI EISIAU MYND NÔL, DWI EISIAU MYND!”

Yn sydyn, daeth golau llachar fel golau car i’ m dallu, ac roedd o fel bod yna rhyw greadur yn fy rhwystro rhag gweld cip o unrhyw beth.... Roedd fy mhen i’n troi, teimlo’n ysgafn fel pluen, a chyfradd fy nghalon yn cyflymu fel trê! Mewn amrantiad, ro’n i yn fy hafan, fy ystafell wely unwaith eto. Union yr un lle gychwynnodd y freuddwyd anghredadwy yma. “O’r diwedd” gwaeddais. Pa mor hir oedd y freuddwyd yma? Ai eiliadau? Yn fy mhen roedd o’n teimlo fel oes. Efallai y buaswn wedi medru cerdded ar draws Wal Tsiena neu gerdded fyny Copa’r Wyddfa ddegau o weithiau yn yr amser hynny....

Gwaeddais “Rhywun adref?” Doeddwn i ddim yn gallu clywed llais fy hunain rhywsut..., dy hynny’n bosib? Rhedais lawr y grisiau. Y tŷ yn wag. Tawelwch. Teimlais ias yn treuddio lawr fy nghefn, wrth weld tusw o flodau hardd yng nghanol y bwrdd, a cherdyn yn dweud ‘ yn meddwl amdanoch ‘...